O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2025 Rhif 650 (Cy. 108)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Talerddig i Gomins-coch, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2025

Gwnaed	*4 Mehefin 2025*
Yn dod i rym	*12 Mehefin 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Talerddig i Gomins-coch, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Mehefin 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 12 Mehefin 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A470 Caersŵs i Fachynlleth.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n 14' 6" neu dros hynny ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

5. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 4 Mehefin 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1

Y darn o'r gefnffordd yn Nhalerddig, Powys sy'n ymestyn o bwynt sydd oddeutu 100 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt pont reilffordd Pont Bell hyd at ei chyffordd ag ystad Bwlch yr Iaen yn Nolfach, Powys.

Y darn o'r gefnffordd yn Llanbrynmair, Powys sy'n ymestyn o'i chyffordd â chanolbwynt y ffordd sirol y tu allan i'r eiddo o'r enw Llysun hyd at yr eiddo o'r enw Newgate (i'r gorllewin o bont Tripgate).

Y darn o'r gefnffordd yng Nghomins-coch, Powys sy'n ymestyn o bwynt 476 o fetrau i'r dwyrain o'r arwydd terfyn cyflymder 20 mya parhaol hyd at ganolbwynt y gilfan a leolir oddeutu 1.35 cilometr i'r gorllewin o'r arwydd terfyn cyflymder 20 mya parhaol hwnnw.

ATODLEN 2

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Bwlch yr Iaen, Dolfach hyd at bont reilffordd Pontdolgoch.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'r eiddo o'r enw Newgate (i'r gorllewin o bont Tripgate), Llanbrynmair hyd at bont reilffordd Pontdolgoch.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt y gilfan a leolir oddeutu 1.35 cilometr i'r gorllewin o'r arwydd terfyn cyflymder 20 mya parhaol yng Nghomins-coch hyd at bont reilffordd Pontdolgoch.